caloncricieth

Rhagfyr 2009
Rhifyn 2

Yn ôl o'r meirw!

"Mae'n wyrth dy fod ti dal yn fyw." Dyna eiriau mae John Bolger wedi clywed yn aml dros y pedwar mis diwethaf, ers iddo cael ei anafu'n ddifrifol mewn damwain car erchyll y tu allan i Aberystwyth.

Roedd John yn teithio o Gricieth i Sir Benfro pan gafodd ei fan ei fwrw gan gar aeth ar ochr John o'r ffordd wrth deithio i'r cyfeiriad arall. "Dydw i'n cofio dim o'r pnawn hwnnw," meddai John. "Mae nhw'n dweud wrtha'i bod y fan wedi gadael y ffordd a dod i stop ar ddarn o laswellt. Fe gymrodd hi bedwar deg munud i'r frigâd dân fy nghael i allan ac roedd y fan yn dda i ddim."

Ar ôl cael ei dorri'n rhydd fe gafodd John ei hedfan i Ysbyty Treforys yn Abertawe. Fe dreuliodd saith awr yn cael llawdriniaeth wrth i feddygon frwydro i achub ei fywyd. Roedd yn rhai iddyn nhw roi tri-deg chwech peint o waed iddo, a chael a chael oedd hi a fyddai'n dod allan yn fyw.

Mae'r rhestr hirfaith o'i anafiadau yn dangos faint o wyrth ydy hi bod John wedi dod trwy'r ddamwain o gwbl. Rhwygwyd ei afu gan nerth y trawiad, fe gafodd anafiadau difrifol i'w ysgyfaint, torwyd ei wddf a sawl un o'i asennau ac fe chwalwyd yr esgyrn yn ei freichiau a'i goesau.

ATEB GWEDDI

Mae John, sydd wedi bod yn Gristion ers un-deg-naw mlynedd, yn credu'n gryf bod ei wellhâd o ganlyniad i Dduw yn ateb gweddi. Wrth i'r newyddion am y ddamwain ymledu fe ddechreuodd cannoedd o Gristnogion ar draws Prydain, ac mewn rhannau eraill o'r byd, weddïo.

Doedd nifer helaeth erioed wedi cwrdd â John ond gweddïo a wnaethant – amdano fo, ei wraig Jackie a gweddill y teulu, wrth iddyn nhw ddisgwyl yn bryderus wrth ei wely.

"Rydw i mor ddiolchgar am bopeth wnaeth y staff meddygol yn Nhreforys," meddai John, "ond yn y pen draw doedd fy mywyd i ddim yn eu dwylo nhw."

Mae John yn adnabyddus yn yr ardal am ei bregethu awyr agored. Cyn y ddamwain roedd i'w weld yn aml ym Mhorthmadog, Pwllheli a Chaernarfon, ac ar draws y gogledd.

Ond yn y gorffennol roedd John yn fwy adnabyddus am ei or-yfed, arweiniodd at sawl ymddangosiad yn y llys, gan amlaf oherwydd ymladd. Yna, yn 1990, daeth newid dramatig ym mywyd John.

GWACTER MAWR

"Roeddwn i eisoes yn mynd i gyfarfodydd AA ac wedi sobri. Roedd bod yn sobr yn beth da, ond heb y diod roedd rhyw wacter mawr yn fy mywyd. Y gwacter yna wnaeth i mi ddechrau chwilio am ateb i gwestiynau mawr fy mywyd."

Roedd John wedi bod i gyfarfodydd yng Nghapel Fron, Penrhyndeudraeth ac wedi ei herio gan y neges glywodd yno. Roedd wedi dechrau sylweddoli bod y y teimlad o wacter oherwydd nad oedd mewn perthynas iawn gyda Duw.

"Un noson, ar ôl blynyddoedd o ofyn cwestiynau, fe ges i ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Pan oedd o'n marw ar y groes mi wnes i sylweddoli bod o'n gwneud hynny i mi. Yn sydyn reit roedd cariad Duw i mi mor real fel bod rhaid i mi fynd ar fy mhengliniau a chrio dagrau o lawenydd a diolchgarwch."

Mae John wedi bod yn pregethu ar y stryd ers bron i ugain mlynedd

NEWYDDION DA

O'r diwrnod hwnnw ymlaen roedd John yn ddyn newydd sbon. Doedd yr alcohol ddim yn apelio ac fe ddechreuodd John a Jackie agor eu cartref i helpu eraill oedd yn gaeth i gyffuriau ac alcohol. A dydy John yn methu cadw'n dawel am yr hyn mae Duw wedi'i wneud yn ei fywyd.

"Mae'r neges yma'n un sy'n newid bywydau. Mae'n neges gall newid unrhyw un, beth bynnag yw eu cefndir. Ers talwm roedd y newyddion da am gariad Duw yn cael ei bregethu mewn capeli ac eglwysi ar draw Cymru, ond mae cornel stryd yn gystal lle i ddweud wrth bobl sut allen nhw gael bywyd gwerth ei fyw trwy ymddiried yn Iesu, pwy bynnag ydyn nhw."

Ar hyn o bryd mae John y gwella yn Ysbyty Alltwen. Mae'n bwriadu bod adref erbyn Dolig a mae'n gobeithio bod allan ar y strydoedd unwaith eto maes o law yn pregethu'r efengyl.

tu mewn...

Nadolig yn Affrica

Sut mae paratoi cinio Dolig i gant o westeion? Mae Hannah Meadows yn disgrifio'r llawenydd a'r gwaith caled sydd y tu ôl i ddathlu genedigaeth Iesu mewn un pentref yn Uganda.

Anrhegion mewn bocsys sgidiau

Mae Operation Christmas Child wedi bod yn brysur eto eleni. Darllenwch sut mae bron i 200 o focsys sgidiau yn llawn anrhegion a theganau o ardal Cricieth wedi gwneud y Dolig yn un arbennig iawn.

Nadolig yng Nghricieth

Mae pawb yn dathlu'r Nadolig mewn ffordd wahanol. Rydyn ni wedi holi rhai o'r bobl sy'n gweithio ar Stryd Fawr Cricieth am yr hyn maen nhw'n edrych ymlaen ato yr amser yma o'r flwyddyn.

EGLWYS DEULUOL CRICIETH



y cefndir...

Mae Calon Cricieth yn bapur newydd am ddim a gyhoeddir gan Eglwys Deuluol Cricieth a Chlwb Gwyliau Cricieth

Ein bwriad ydy i'ch hysbysu am yr eglwys – ei gweithgareddau a'i phobl – ac i gynnwys straeon newyddion o ddidordeb lleol. Rydym yn gobeithio cyhoeddi o leiaf tri rhifyn y flwyddyn adeg Dolig, y Pasg ac ar ddiwedd mis Gorffennaf, i gyd-fynd â gwaith y Clwb Gwyliau.

Os hoffech wneud sylw ar unrhyw beth yn y rhifyn yma, ysgrifennwch at:
Ben Thomas
22 Min-y-Môr
Cricieth
LL52 0EF
neu cysylltwch trwy ebost
BenThomas@unforgettable.com

Dylid cyfeirio unrhyw faterion yn ymwneud â'r Clwb Gwyliau i Andrew Bradley – andrewbrad@btinternet.com

Gwefan EDC:
cricciethfamilychurch.org.uk
Gwefan y Clwb Gwyliau
criccieth.org.uk

Llond Bocs o Gariad

Fe fydd llawer o ddarllenwyr Calon Cricieth wed pacio bocs sgidiau neu ddau yn ystod mis Tachwedd fel rhan o Apêl Operation Christmas Child.

Aeth bron i 200 o focsys o'r ardal yma eleni ar eu ffordd i rannau gwahanol o'r byd.

Operation Christmas Child ydy'r apêl Nadolig i blant fwyaf yn y Deyrnas Unedig ac mae wedi bod yn mynd ers dros un-deg-naw o flynyddoedd. Diolch i fyddin anferth o wirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser am ddim, mae bocsys sgidiau yn llawn rhoddion yn cael eu cludo i blant yn Affrica, Dwyrain Europe and a Chanolbarth Asia.

Mae'r plant sy'n derbyn y bocsys ymhlith y mayaf anghenus yn y byd. Maen nhw'n byw mewn gwledydd sydd wedi eu rhwygo gan ryfel, tlodi a newyn. I lawer dyma fydd yr unig anrhegion iddyn nhw eu derbyn drwy'r flwyddyn.

Sonia gweithwyr OCC am gorfoledd y plant yma wrth iddyn nhw ddad-lapio'u bocsys sy'n cynnwys pethau ymolchi, offer sgwennu a thegannau bach.

Llynedd fe gafodd dros 1.2 milwn o focsys sgidiau eu lapio gan blant ac oedolion yn y wlad yma a'u hanfon i blant mewn sefyllfaoedd difreintiedig..

Fel elusen Gristnogol mae OCC yn gweithio i ddangos cariad Duw i'r teuluoedd mae'n eu helpu. Mae pob plentyn hefyd yn derbyn taflen syml sy'n esbonio'r rheswm dros y gwaith sy'n cael ei wneud yn ogystal â'r gobaith sydd i gael yn Iesu Grist.

Os hoffech wybod mwy am waith Operation Christmas Child gallwch ymweld â'u gwefan:

operationchristmaschild.org.uk

Nadolig yn Uganda

Mae Hannah Meadows, merch y Post, wedi bod â chysylltiadau gyda Uganda ers rhai blynyddoedd. Y Nadolig yma fe fydd hi'n treulio mis ym mhentref Oderai yng ngogledd ddwyrain y wlad. Dyma ddisgrifiad Hannah o sut beth ydy Nadolig Affricanaidd!

"Mae'r pentre'n llawn cyffro. Mae pawb o'r trefi a'r dinasoedd wedi dod adref i fod gyda'u teuluodd. Mae'n hawdd dweud ei bod hi'n Dolig – mae'r plant i gyda yn cerdded i'r eglwys yn eu dillad gorau (i'r rhan fwyaf eu gwisg ysgol). Erbyn meddwl, mae pawb yn eu dillad gorau!

Mae Dydd Nadolig yn dechrau'n fore, gydag oedfa addoli fel eglwys am tua 7am. Yn y bore mae'r dathliad o enedigaeth Iesu – penliniwn, gweddïwn, canwn, gweiddwn, dawnsiwn!

Yn y pnawn mae amser o gymdeithasu a gwledda. Yn gynnar yn y bore, cyn i'r eglwys ddechrau, mae pawb yn dod â'u cyfraniadau i'r storfa ac mae criw yn mynd i gasglu coed tân a dwr. Daw rhai â iâr gwerthfawr i'w lladd, dim ond halen gall rhai ei roi; mae

eraill yn mynd i'r caeau i gasglu llysiau. Mae pawb yn cyfrannu cymaint ag y gallen. Wedi'r oedfa mae'r hen Mamas yn dechrau ar eu gwaith! Mae pawb yn ceisio helpu ond mae popeth o dan reolaeth gan y brif Mama a'i thîm. Maen nhw am ein bwydo i gyd – efallai cant neu fwy.

Mae'r eglwys gyfan yn dod at ei gilydd am y dydd...ac mae'r dydd yn ymestyn i'r noswaith pan mae addoliad a dawnsio'n parhau yn hwyr y nos. Dathliad ydy'r Nadolig yn Soroti o ddaioni Duw a chymdeithas gyda'i bobl!"

Cefndir ein carolau...

Clywch lu'r nef yn seinio'n un

Beth gewch chi trwy groesi emynwr Gristnogol gyda chyfansoddwr Iddewig? Yr ateb ydy un o'r carolau mwyaf adnabyddus erioed.

Y dyn y tu ôl i eiriau 'Clywch lu'r nef yn seinio'n un' oedd y pregethwr Saesneg Charles Wesley ac fe gafodd ei chyhoeddi gyntaf ym 1739. Mae'r pedwar bennill rydyn ni'n canu heddiw yn fersiwn lot yn llai o'r garol wreiddiol.

Mae'r linell agoriadol wreiddiol gan Charles Wesley yn cyfieithu fel hyn, 'Clywch sut mae'r nefoedd yn canu, Gogoniant i Frenin y brenhinoedd'. Fe berswadiodd ffrind i Wesley ei adael i'w newid i'r linell gyntaf cyfarwydd rydyn ni'n ei ganu heddiw.

Gwnaeth Wesley'n glir ei fod am i'w emynau cael eu canu i gyfeiliant araf, difrifol, ond mae'r dôn sydd wedi'i briodi â'r geiriau yn ddarn gyda naws dathlu iddi. Fe gafodd ei sgwennu yn 1840 gan y cyfansoddwr Iddewig Felix Mendelssohn i nodi dyfeisio'r wasg brintio.

Roedd Mendelssohn yn benderfynol mai at ddefnydd seciwlar yn unig roedd ei ger-



ddoriaeth ond nid nes bod Wesley ac yntau wedi marw y cafodd organydd o'r enw Dr William Cummings y syniad o roi'r geiriau a'r dôn at ei gilydd.

Fyddai'r un o'r ddau ddyn wedi hoffi'r canlyniad ond mae'r cyfuniad yn un sy'n asio gwirionedd a gorfoledd mewn ffordd odidog. Roedd Charles Wesley yn adnabyddus am lenwi ei emynau gyda gwirioneddau'r Beibl ac mae 'Clywch lu'r nef' yn tynnu ar ddwsinau o adnodau o bob rhan o'r Beibl.

Mae'r cytgan, sy'n sôn am eni Ceidwad dyn, yn grynodeb wych o swm a sylwedd y Nadolig.

YN EISIAU!

Angylion, bugeiliaid, defaid, doethion

i serennu yn ein

Gwasanaeth Garolau i Blant

4.30 p.m. Noswyl Nadolig

Neuadd y Clwb Gwyliau

Dewch i ymuno a ni wrth i ni fynd ar daith i Fethlehem i glywed am y Nadolig cyntaf un

gyda charolau, babi go iawn a chyfle i blant oed 3-11 gymryd rhan

Bydd y gwasanaeth yn para 45 munud gyda diodydd a mins peis ar y diwedd

Dyma yw'r Dolig i mi

Gofynnodd **calon**cricieth i dri o weithwyr Stryd Fawr Cricieth rannu yr hyn sy'n gwneud y Nadolig yn amser i drysori

Alison Bradley

Siop Lyfrau Roots

"I mi mae'r Nadolig yn golygu treulio amser gyda'r teulu, rhoi a derbyn anrhegion, addurno'r goeden, anfon a derbyn yr holl gerdiau, a mwy. Dyma'r pethau rydw i'n hoffi eu gwneud adeg Dolig ond ar ben hynny oll, dros y blynyddoedd diwethaf rydw i wedi bod yn dysgu plant bach ac wedi gwirioni ar rannu'r stori o sut gafodd Iesu ei eni ym Methlehem ar y Dydd Nadolig cyntaf. Mae'n hyfryd i allu dathlu penblwydd Iesu yn yr eglwys gydag eraill ac i ddiolch iddo gyda'n gilydd am iddo ddod i farw yn ein lle fel y gallen brofi bywyd yn ei llawnder, ac ymuno yn y dathlu!"

Alistair Meadows

Swyddfa'r Post

"Rydw i wrth fy modd gyda fy nghartref adeg Dolig – aroglau'r goeden Nadolig wrth ddringo'r grisiau, y goleuadau a'r addurniadau, gweld yr holl gerdiau (a'u darllen ychydig cyn eu rhoi i gadw!), trio cael rhywbeth i fwyta yng nghanol yr holl baratoi a choginio yn y gegin!

Dw i wrth fy modd yn dod adref o'r gwaith i dy sydd dan ei sang gyda phobl wedi eu cyffroi'n lân a Ruth yn rhoi gorchmynion i bawb. Dw i wrth fy modd gyda Noswyl Nadolig, amser i dawelu ar ôl y paratoi di-ddiwedd am y Dydd...gwaith wedi ei orffen ac amser i edrych ymlaen at fod gyda'r teulu a theulu'r eglwys, yn mwynhau'r rhodd bendigedig yma o Iesu Grist.

Ac yna'n anffodus, yn ôl i realiti a gorfod lapio anrhegion, plicio sbrowts, lapio rhagor o anrhegion. Pan dw i'n eistedd i lawr i feddwl am yr hyn sy'n gwneud y Nadolig yn arbennig i ni, dw i'n sylweddoli mai presenoldeb Iesu ei hun gyda ni sy'n crynhoi ystyr y Nadolig i ni.

Iesu yw'n bywyd 24/7/365! Gwir wyrth y Nadolig ydy'r ffaith bod Duw gyda ni.....gyda fi! Drwy'r amser. A hynny oll oherwydd y baban bach a ddaeth."

Andy Kime

Oriel Eryr Aur

"O ran anrhegion, dw i eisiau gwneud yn siwr fy mod i'n rhoi anrheg fydd yn cael ei werthfawrogi go iawn, hyd yn oed os ydy o'n costio ychydig bach mwy. Dw i hefyd wrth fy modd yn treulio amser gyda'r teulu. Ond beth all gymharu gyda genedigaeth Iesu? Mae geiriau'r gân yn ffenest yr oriel yno am reswm ac yn mynd rhyw faint o'r ffordd i ddisgrifimor rhyfeddol ydy hi bod y babi bach yma wedi ei roi i bawb sydd eisiau ei dderbyn. Fo ydy'r rhodd perffaith – hyd yn oed i'r rhai sy'n meddwl bod ganddyn nhw bopeth."

Cefndir ein carolau...

Tawel nos

Daeth un o hoff garolau'r byd i fodolaeth am fod organ yr eglwys mewn pentref bach yn Awstria'n gwrthod gweithio!

Oherwydd hyn roedd yn rhai i garfan o actorion symudol berfformio'u Drama Nadoligaidd mewn cartref breifat. Wrth i'r gweinidog gynorthwyol Josef Mohr adael, dan deimlad mawr ar ôl clywed eto hanes y geni, fe aeth yntau am dro hir gan oedi ar ben bryn lle roedd yn gally edrych i lawr ar y pentref o dan orchudd o eira.

Wrth iddo sefyll yno fe gafodd ei atgoffa am gerdd fer yr ysgrifennodd rhai blynyddoedd cyn hynny am y noson pan gyhoeddodd yr angylion eni Gwaredwr y byd. Wrth i'r geiriau ddychwelyd iddo teimlai'n gryf y gwnant garol da i'r bobl ganu y prynhawn ganlynol yn eu gwasnaeth Noswyl Nadolig. Ond doedd dim organ.

Er gwaetha hynny, galwodd Mohr ar ei organydd Franz Gruber a dangos y geiriau iddo, Cododd Franz ei gitar a chyfansoddodd dôn i'r gynulleidfa ei ganu y diwrnod hwnnw. Rhai wythnosau'n ddiweddarach, tra bod adeiladwr yr organ, Karl Mauracher, yn yr eglwys ar ôl trwsio'r offeryn, chwaraeodd Gruber y dôn newydd er mwyn profi'r organ.

Roedd Karl mor hoff ohoni fel y cymrodd y garol gyfan gyda fo a'i rannu ag eraill nes iddi ymledu i fod yn un o'r Carolau mwyaf poblogaidd erioed.

Rhywbeth i'r teulu cyfan yn EDC

Mae Eglwys Deuluol Cricieth yn cyfarfod bob bore Sul am 10.30 a.m. ac am 7.00 p.m. i foli Duw ac i glywed oi air mewn awyrgylch gyfeillgar ac anffurfiol.

Does dim angen i chi fod yn gyfarwydd â'r hen emynau, bydd neb yn eich gofyn i wneud unrhyw beth od ac rydyn ni'n estyn croeso cynnes i bawb sy'n dod.

Ar drydydd nos Sul y mis mae gennym noson 'Gwir Bob Gair' pan mae'r adeilad yn edrych fwy fel caffi ac mae cyfle i glywed yr atebion i gwestiynau mawr, fel 'Sut le ydy'r nefoedd?' mae rhagor o fanylion i gael o siop Roots.

Ganol wythnos mae ein cylch chwarae, 'Bobol Bach' i blant oed 0-3 a'u rhieni o 10am-12pm ddydd Mawrth ac mae grwpiau i blant 7-10 oed (Wave) a 11-16 oed (CIC) ar nosweithiau Iau am 6.00 p.m. a 7.30 p.m.

Mae'n holl cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Neuadd y Clwb Gwyliau oni cyhoeddir yn wahanol.

Cwis Nadoligaidd

Pa mor dda dach chi'n gwybod stori'r Nadolig cyntaf? Eisteddwch yn ôl a phrofi'ch hunan yn ein cwis aml-ddewis. Mae'r atebion ar waelod y dudalen.

1. Pa un o'r rhain oedd ddim yn rhodd gan y doethion?

(a) Myrr (b) Deiamwntau (c) Aur

2. I le ddihangodd Mair a Joseff pan oedd Herod eisiau lladd y baban Iesu?

(a) Yr Aifft (b) Twrci (c) Sbaen

3. Faint o ddoethion oedd yna?

(a) Tri (b) Pedwar (c) Dydy'r Beibl ddim yn dweud

4. Beth yw ystyr yr enw 'Iesu'?

(a) Mab Duw (b) Goleuni (c) Gwaredwr

5. Beth oedd enw'r angel ddwedodd wrth Mair ei bod am gael babi?

(a) Meical (b) Gabriel (c) Eseia

6. Beth oedd enw arall Bethlehem?

(a) Dinas Dafydd (b) Galilea (c) Y Ddinas Rufeinig

7. Pa arwydd oedd y bugeiliaid i edrych amdano pan ddaethon nhw o hyd i'r babi?

(a) Asyn yn sefyll wrth ei ymyl (b) Y byddai'n gwenu (c) Y byddai'n gorwedd mewn preseb

8. Faint o blant gafodd Mair cyn Iesu?

(a) Dau (b) Dim (c) Un

9. Beth oedd enw perthynas Mair gafodd fabi tua'r un pryd?

(a) Elizabeth (b) Anna (c) Josephine

10. Pa broffwyd yn yr Hen Destament soniodd am forwyn yn rhoi genedigaeth i fab?

(a) Elias (b) Jeremeia (c) Eseia

Gallwch ddarllen yr hanes am enedigaeth Iesu yn Matthew pennod

2 and Luc penodau 1 and 2.

Atebion

1 (b); 2 (a); 3 (c); 4 (c); 5 (b); 6 (a); 7 (c); 8 (b); 9 (a); 10 (c)

Mae'r Aros Drosodd!

gan Ben Thomas

Pan oeddwn yn tyfu fyny doedd dim ond un peth nad oeddwn i'n hoffi am y Nadolig, a hynny oedd y ffaith bod angen aros mor hir am y diwrnod fawr! Fel plentyn, mae'r dyddiau sy'n arwain at y 25ain yn llusgo ymlaen am byth. Mae calendrau adfent yn help rhyw ychydig ond mae'n gallu teimlo fel oes cyn i Ddydd Nadolig wawrio o'r diwedd.

Wrth gwrs, wrth i chi fynd yn hyn, mae'n teimlo fel nad oes digon o amser i wneud popeth sydd angen ei wneud. Mae'r dyddiau sy'n arwain at y Nadolig yn gwibio heibio mewn dim o beth, ac yna mae popeth yn dod i stop ar Noswyl Nadolig.

Ond wrth i Nadolig arall nesau, am beth ydyn ni gyd yn disgwyl? Ychydig ddyddiau i ffwrdd o'r gwaith? Amser gyda'r teulu? Cyfle i fynd dros ben llestri gyda'r bwyd a'r diod? Ai dyna'r cwbl dan ni'n ei ddisgwyl? Ac os felly, ydy o werth y drafferth?

Disgwyl ydy un o themau fawr y Nadolig cyntaf un. I ddechrau dyma ni Mair a'i hymweliad annisgwyl gan yr angel Gabriel. Trowyd ei bywyd bach ben i waered gan y newyddion bod Duw wedi ei dewis i gario ei Fab, yr hirddisgwyledig Waredwr. Hir yw pob ymaros medden nhw, ac mae'n rhai bod y naw mis yna wedi eu llenwi â chyfuniad o gyffro ac ofn i Mair wrth iddi edrych i'r dyfodol.

Doedd dim rhaid i'r bugeiliad aros yn hir cyn gweld yr un roedd y côr angylaidd wedi canu amdano. Ond unwaith welson nhw Iesu, a sylweddoli mai fo oedd y Meseia – yr un oedd wedi ei addo – doedden nhw'n methu aros i rannu'r newyddion rhyfeddol yma gyda gweddill y byd.

Pan ganodd yr angylion bod Ceidwad wedi ei eni, roedden nhw'n cyhoeddi newyddion da i bobl o bob oed a phob oes. Yn Iesu, mae cynllun achubiaeth Duw i ddynol ryw wedi ffrwydro ar lwyfan hanes. Duw ei hun oedd y baban ym mhreseb Bethlehem, wedi ei lapio mewn corff cig a gwaed.

Rydyn ni wedi gwthio Duw allan o'i fyd ac allan o'n bywydau. Y gair mae'r Beibl yn ei defnyddio am hyn ydy pechod, ac mae pob un ohonom yn bechadur. Ond mae Duw wedi dangos pa mor rhyfeddol ydy ei gariad a'i garedigrwydd trwy anfon ei fab Iesu i ddod yn un ohonom ni.

Iesu ydy'r unig berson perffaith sydd wedi byw erioed. Fo ydy'r unig un sydd erioed wedi haeddu cael ei gosbi, ond fe gymrodd fy lle i a'ch lle chi ar y groes. Yno, fe gafodd ei gosbi yn ein lle, ac yna ei atgyfodi i fywyd eto fel y gallen ni brofi maddeuant Duw a'i adnabod fel ein tad a'n brenin.

Beth bynnag dach chi'n ei ddisgwyl neu'n gobeithio amdani y Dolig yma, dim ond un person gall ddod â gwir ystyr i'ch dathliadau – ac i'ch bywyd. Y person hwnnw ydy Iesu Grist, yr un daeth i'r byd yma er mwyn gwneud pethau'n iawn rhygom ni a Duw.

A'r newyddion gwych ydy hyn – does dim rhaid aros tan y Nadolig i adnabod Duw eich hunan. Heddiw, os dowch chi ato mewn gweddi a dweud wrtho bod yn ddrwg gennych am eich pechod a'ch bod yn credu bod Iesu wedi marw yn eich lle, fe gewch chi brofi maddeuant go iawn, a'r addewid o fywyd am byth.

Os hoffech chi glywed mwy am y cynnig arbennig mae Duw yn ei wneud i chi y Nadolig yma, beth am ddod i'n noson o Garolau yng Ngolau Cannwyll ar 20fed Rhagfyr am 7pm. Buaswn wrth ein bodd yn eich gweld hefyd ar Ddydd Nadolig am 10.30, wrth i ni ddathlu'r ffaith bod yr aros drosodd – mae Crist y Gwaredwr wedi dod!

CHRISTIANITY EXPLORED

Enw.....

Cyfeiriad.....

Ffôn.....

Ebost.....

Cwrs anffurfiol ydy Darganfod i bobl sydd eisiau archwilio Cristnogaeth, neu efallai atgoffa'u hunain o'r pethau sylfaenol. Mae'n edrych ar pwy oedd Iesu, beth oedd eu amcanion a beth mae'n ei olygu i'w ddilyn. Cewch chi mo'ch gofyn i weddïo, canu na darllen yn uchel, ac fe gewch chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd ar eich meddwl.

Os hoffech chi fod yn ran o gwrs wedi ei drefnu gan Eglwys Deuluol Cricieth yn y flwyddyn newydd, llenwch eich manylion ar y ffurflen isod a'i ddychwelyd i siop Roots, 46 Stryd Fawr neu postiwch i Ben Thomas Y Neptune, 22 Min-y-Môr. Mi wnewn ni gysylltu â chi am y cwrs nesaf.